




Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 22 Mawrth 2021

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 17 Mai 2021







Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

## **Cynnig ar gyfer diwygio**

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help  
i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

**Papur ymgynghori a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar  
gael yn [https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/increasing-selected-  
court-fees-income-thresholds](https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/increasing-selected-court-fees-income-thresholds)**

# Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

- At:** Anelir yr ymgynghoriad hwn at ddefnyddwyr awdurdodaethau Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yr effeithir arnynt, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cynghori, y sector gwirfoddol a phawb sydd â diddordeb yng ngwaith Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM.
- Hyd:** O 22/03/21 tan 17/05/21
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) i:** Fees Policy Team  
Weinyddiaeth Gyfiawnder/Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
E-bost: [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)
- Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 17 Mai 2021 i:  
Fees Policy Team  
Weinyddiaeth Gyfiawnder/Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
E-bost: [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)
- Ffyrdd ychwanegol o gyflwyno eich barn:** Mae arolwg ar-lein yn cael ei gynnal law yn llaw â'r ymarfer ymgynghori hwn ar gyfer cyflwyno ymatebion. Mae ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/increasing-selected-court-fees-income-thresholds>. I gael rhagor o wybodaeth defnyddiwch y manylion cyswllt ar gyfer "Ymholiadau" uchod.
- Papur ymateb:** Disgwylir y bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Gorffennaf 2021 yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

# Cynnwys

<b>Rhagair y Gweinidog</b>	<b>7</b>
<b>Crynodeb gweithredol</b>	<b>9</b>
<b>Y cynnig</b>	<b>11</b>
<b>Holiadur</b>	<b>18</b>
<b>Amdanoch chi</b>	<b>20</b>
<b>Manylion cyswllt/Sut i ymateb</b>	<b>21</b>
Cwynion neu sylwadau	21
Copiâu ychwanegol	21
Cyhoeddi'r ymateb	21
Grwpiau cynrychioliadol	21
Cyfrinachedd	21
<b>Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg</b>	<b>23</b>
Asesiad effaith	23
Cydraddoldeb	23
Yr Iaith Gymraeg	24
<b>Egwyddorion ymgynghori</b>	<b>25</b>

## **Cynnig ar gyfer diwygio**

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

## Rhagair y Gweinidog

Yn y DU, rydym yn darparu system llysoedd a thriwlynlysoedd o'r radd flaenaf. Mae enw da'r system gyfiawnder heb ei ail ac mae safon ein barnwriaeth yn cael ei hedmygu ym mhob cwr o'r byd. Mae'r cyhoedd yn ymddiried yn y gwasanaeth llysoedd a thriwlynlysoedd i fod yn effeithiol ac yn effeithlon wrth gynnal mynediad at gyfiawnder – rôl yr Arglwydd Ganghellor yw sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae ein system llysoedd a thriwlynlysoedd yn gweithredu ar yr egwyddor y dylai'r rhai sy'n defnyddio llysoedd neu driwlynlysoedd (y tu allan i'r awdurdodaeth droseddol) dalu tuag at gost y gwasanaeth a ddefnyddiant, os gallant fforddio gwneud hynny. Fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau llys a thriwlynlys yr ydym yn codi ffioedd amdanynt sy'n is na chost y gwasanaeth, neu lle nad ydym yn codi ffi o gwbl. Mae enghreifftiau'n cynnwys ceisiadau am orchmynion rhag molestio, ac achosion yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

Mae'r incwm a geir o ffioedd yn talu llai na hanner costau rhedeg y system llysoedd a thriwlynlysoedd. Caiff y gost ychwanegol hon ei sybsideiddio gan y trethdalwr. Bach iawn fu'r cynnydd mewn ffioedd yn y llysoedd a'r triwlynlysoedd ers 2016, er gwaethaf costau cynyddol oherwydd chwyddiant, ymysg pethau eraill. Nod y cynnig hwn yw cynyddu rhai ffioedd llys yn unol â chwyddiant hanesyddol sy'n dyddio o fis Awst 2016 i fis Ebrill 2021, neu'r flwyddyn y cafodd y ffi ei diwygio ddiwethaf (wedi'i gapio ym mis Awst 2016). Mae hyn er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n gallu fforddio talu am y gwasanaeth yn parhau i wneud hynny ar gyfradd sy'n fwy tebyg i'r costau uwch sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau hyn. Mae'r codiadau arfaethedig hyn yn adlewyrchu chwyddiant hanesyddol ac felly nid ydynt yn gynnydd mewn termau real

Er na fydd y codiadau a amlinellir yn y cynnig hwn yn dileu'r angen i'r trethdalwr sybsideiddio'r system yn rhannol, byddant yn lleihau'r cyfraniad sy'n ofynnol gan y trethdalwr i sicrhau bod gan ein llysoedd a'n triwlynlysoedd y cyllid angenrheidiol i ddarparu eu gwasanaethau pwysig a sicrhau mynediad at gyfiawnder i bawb. Mae hyn yn bwysicach fyth wrth i ni geisio dod dros effeithiau Covid-19.

Bydd y cynnig hwn hefyd yn darparu ar gyfer codiadau chwyddiant i'r trothwyon incwm yn ein cynllun Help i Dalu Ffioedd, gan ddefnyddio chwyddiant wedi'i ôl-ddyddio i fis Awst 2016 hyd at fis Ebrill 2021, i sicrhau bod unrhyw ddefnyddiwr nad yw'n gallu fforddio ffioedd llysoedd neu driwlynlysoedd yn dal i allu cael mynediad at y gwasanaethau hyn gyda chymorth dileu ffioedd yn llawn neu'n rhannol.

Yn gyffredinol, nod y cynnig hwn yw darparu cyllid y mae mawr ei angen i Wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi drwy gynyddu rhai ffioedd a sicrhau ein bod yn

**Cynnig ar gyfer diwygio**

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

cynnal mynediad at gyfiawnder drwy gynyddu trothwyon incwm ein cynllun Help i Dalu Ffioedd.

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'C. Philp'.

Chris Philp

**Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol**

(Y Gweinidog dros Gydymffurfio ym maes Mewnfudo a'r Llysoedd)



# Crynodeb gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn nodi cynnig y Llywodraeth i gynyddu rhai ffioedd llys yn unol â chwyddiant<sup>1</sup>. Petai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, byddai'n ôl-ddyddio codiadau i ffioedd yn ôl chwyddiant hyd at 2016 neu (os yw'n hwyrach na 2016) y flwyddyn y cafodd y ffi ei chodi ddiwethaf. Mae'r codiadau arfaethedig hyn yn adlewyrchu chwyddiant hanesyddol ac felly nid ydynt yn gynydd mewn termau real. Efallai y bydd y ffioedd sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn yn newid yn dibynnu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi cynnig y Llywodraeth i godi trothwyon incwm y cynllun 'Help i Dalu Ffioedd' (HwF) a chynllun dileu ffioedd Goruchel Lysoedd y DU yn unol â chwyddiant<sup>2</sup> sydd wedi'i ôl-ddyddio i 2016 a thrwodd i fis Ebrill 2021, er mwyn sicrhau bod y rheini nad ydynt o bosibl yn gallu fforddio ffioedd y llysoedd yn dal i allu manteisio ar y gwasanaethau cysylltiedig.

Mae'r cynnig wedi'i gyfyngu i ffioedd sy'n tan-dalu o'i gymharu â'u 'cost uned' bresennol (amcangyfrif o gost y gwasanaeth) a ffioedd lefel uwch, sy'n golygu bod modd eu gosod ar lefel sy'n uwch na chost y gwasanaeth. Dim ond gyda chymeradwyaeth seneddol benodol y gellir pennu ffioedd uwch ar gyfradd o'r fath. Mae costau uned wedi cael eu hamcangyfrif ar gyfer 2018/19 a'u cynyddu hyd at Ebrill 2021 ar gyfer y ffioedd arfaethedig.

Amcangyfrifir y bydd y cynnydd arfaethedig yn y ffioedd yn codi incwm net ychwanegol o £11-£17 miliwn y flwyddyn i Wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) ar ôl dileu ffioedd, gan gynnwys y newidiadau arfaethedig i HwF. Bydd hyn yn lleihau'r sybsideiddio sy'n ofynnol gan y trethdalwr ac yn sicrhau bod GLITEM yn gallu parhau i ddarparu mynediad at gyfiawnder i bawb ac ategu'r cyllid ychwanegol sydd eisoes yn cael ei ddarparu gan y Llywodraeth i helpu'r adferiad ar ôl Covid-19. O ystyried yr ansicrwydd economaidd presennol a'r anhawster o ragweld cyfraddau chwyddiant yn gywir ar hyn o bryd, dangosol yw'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn a

<sup>1</sup> Mae chwyddiant yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), wedi'i ôl-ddyddio o fis Awst 2016 hyd at fis Ebrill 2021 – mae'n 7.7% (bydd 11 o ffioedd yn cael eu cynyddu ar gyfradd is, gan eu bod wedi cael eu newid ddiwethaf un ai ym mis Gorffennaf 2018 (2 ffi) neu ym mis Gorffennaf 2019 (9 ffi)). Ar hyn o bryd, dim ond tan fis Rhagfyr 2020 y mae ffigurau cyhoeddus CPI ar gael – maent ar gael yn <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletinves/consumerpriceinflation/determ2020>. Defnyddir amcangyfrifon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer chwyddiant CPI yn Chwarter 1 2021, fel y'u cyhoeddwyd yn ei Rhagolwg Economaidd a Chyllidol, Tachwedd 2020 – ar gael yn <https://obr.uk/efo/economic-and-fiscal-outlook-november-2020/>. Ac ystyried effaith ddigynsail pandemig Covid-19, mae rhagolygon economaidd wedi bod yn ansicr ac wedi cael eu diwygio. Dangosol i raddau helaeth yw'r codiadau chwyddiant a ystyrir yn y cynnig hwn, o ystyried y bydd y rhain yn cael eu diwygio gyda ffigurau alldro chwyddiant cyhoeddus pan fydd y rhain ar gael, a allai gynyddu neu leihau'r newidiadau i'r ffioedd sy'n cael eu hamcangyfrif ar hyn o bryd. Byddwn hefyd yn archwilio effaith ffigurau alldro chwyddiant ar gostau GLITEM.

<sup>2</sup> Mae chwyddiant yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddiannwyr (CPIH). Defnyddir ffigurau CPIH ar gyfer mis Mawrth, sy'n gyson â'r fethodoleg codi ffioedd. Defnyddwyd rhagolwg diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer CPI (Tachwedd 2020) i gyfrifo chwyddiant rhwng Ebrill 2020 ac Ebrill 2021 ac mae'r trothwyon wedi'u talgrynnu i'r pum punt agosaf

## **Cynnig ar gyfer diwygio**

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

byddant yn cael eu diwygio, ar sail yr union ffigurau, cyn gweithredu'r ffi ddiwygiedig. Felly, gall yr amcangyfrif hwn o'r incwm newid.

Mae'r Llywodraeth yn ceisio barn gan ddefnyddwyr yr awdurdodaethau o fewn GLITEM yr effeithir arnynt, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cyngori, y sector gwirfoddol a phawb sydd â diddordeb yng ngwaith GLITEM.

## Y cynnig

1. GLITEM sy'n gweinyddu'r system llysoedd sy'n caniatáu i bobl weithredu ac amddiffyn eu hawliau. GLITEM sy'n gwneud hyn, ond rôl yr Arglwydd Ganghellor yw sicrhau bod y llysoedd yn effeithlon ac yn effeithiol wrth amddiffyn mynediad at gyfiawnder. Mae pobl yn rhyngweithio â GLITEM am nifer o resymau gwahanol, yn aml yn ystod cyfnodau anoddaf eu bywydau, er enghraifft pan fyddant yn:
  - ddioddefwyr neu'n dystion troseddau;
  - diffynyddion a gyhuddir o gyflawni trosedd;
  - defnyddwyr sydd mewn dyled;
  - pobl yn apelio yn erbyn penderfyniad gweinyddol;
  - pobl sy'n ymwneud â mabwysiadu neu amddiffyn plentyn;
  - busnesau ac unigolion sy'n ymwneud ag anghydfodau masnachol; a
  - phobl yr effeithir arnynt pan ddaw perthynas i ben neu pan fydd teulu yn chwalu.
2. Mae nifer o awdurdodaethau yn y system llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n delio â gwahanol fathau o anghydfodau. Mewn perthynas â'r cynnig hwn, dyma'r awdurdodaethau yr effeithir arnynt:
  - Llysoedd Sifil (sef y Llys Sirol, yr Uchel Lys a'r Llys Apêl) sy'n ganolog i ddatrys anghydfodau sifil syml neu gymhleth.
  - Llysoedd sy'n gwrandao achosion teulu, sy'n helpu teuluoedd i ddatrys unrhyw anghydfodau a allai godi.
  - Y Llys Gwarchod, sy'n gwneud penderfyniadau ac yn penodi cynrychiolwyr ar faterion ariannol neu les ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau.
  - Awdurdodaeth sifil y Llysoedd Ynadon, sy'n delio â materion sifil ac achosion teulu amrywiol.
3. Mae'r system llysoedd a thribiwnlysoedd yn seiliedig ar ddwy egwyddor gyffredinol: yr angen i ddiogelu mynediad at gyfiawnder, a'r angen i redeg yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd bersonol a statudol i sicrhau bod system effeithiol ac effeithlon ar waith i gefnogi busnes y llysoedd. Wrth bennu ffioedd, rhaid i'r Arglwydd Ganghellor hefyd

ystyried yr hawl cyfraith gwlad i gael mynediad at gyfiawnder – gan sicrhau na wrthodir yr hawl hon i'r rhai y mae angen iddynt gael mynediad i'r llysoedd.

4. Er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau hyn, mae gan yr Arglwydd Ganghellor y pŵer i godi a rhagnodi ffioedd mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir gan y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Nodir y ddeddfwriaeth sy'n darparu dyletswydd a phwerau'r Arglwydd Ganghellor mewn perthynas â phennu ffioedd ym mharagraffau 18-25. Nodir y ffioedd mewn offerynnau statudol. Mae'n ofynnol i ddefnyddiwr dalu'r ffi a nodir yn yr offeryn statudol perthnasol er mwyn cymryd camau penodol, gan gynnwys cychwyn achos (cychwyn hawliad, ffeilio gwrth-hawliad, neu wneud cais i orfodi gorchymyn llys); neu symud ei achos ymlaen (gwneud ceisiadau a mynd ymlaen i wrandawriad).
5. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor y pŵer i bennu ffioedd arferol (sy'n unol â'r gost neu'n is) neu (mewn rhai meysydd) ffioedd uwch. Fel egwyddor, dylai ffioedd gael eu pennu fel arfer ar lefel sy'n adennill o leiaf ran o gost y gwasanaeth. Ychydig iawn o ffioedd sy'n adfer cost gyfan y gwasanaeth a bydd angen rhywfaint o sybsideiddio gan y trethdalwr ar gyfer cyfran fawr o ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd er mwyn helpu i ariannu'r gwasanaeth. Mae gwasanaethau heb ffi yn cynnwys, er enghraifft, gorchmynion rhag molestu ac achosion sy'n cael eu dwyn gerbron y Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.
6. Ceir rhai achosion lle na all defnyddiwr fforddio talu ffi, felly, fel rhan o ddyletswydd yr Arglwydd Ganghellor i amddiffyn mynediad at gyfiawnder, mae cynllun dileu ffioedd o'r enw 'Help i Dalu Ffioedd' (HwF) yn bodoli gyda chynllun tebyg ar gael yng Ngoruchel Lys y DU. Mae'r cynllun hwn yn rhoi esemptiad rhag talu ffioedd i ddefnyddwyr cymwys. Mae nifer o wahanol feini prawf dileu ffioedd yn pennu pwy sy'n gymwys am HwF, gan gynnwys incwm, cynilion y ceisydd, a yw'n byw gyda phartner neu a oes ganddo blant dibynnol, maint y ffi, ac a yw'n cael budd-daliadau penodol. I ymgeiswyr llwyddiannus, bydd eu ffi un ai'n cael ei dileu yn rhannol neu yn llwyr<sup>3</sup>.
7. Mae ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn cael eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd. Yn 2019/20, roedd incwm ffioedd net o £724m yn erbyn costau rhedeg o £2bn GLITEM. Yn yr un modd ag adrannau eraill y Llywodraeth, mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyfrifoldeb i asesu ei chostau a sicrhau arbedion er mwyn lleihau'r gost i'r trethdalwr. Mae ffioedd yn ffynhonnell incwm bwysig i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn

<sup>3</sup> Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir caniatáu dileu ffioedd y tu allan i'r prif asesiad HwF. Ystyrir hyn fesul achos gan swyddogion y llys. Sylwch os gwelwch yn dda nad yw dileu ffioedd ar gael ar gyfer ffioedd a delir am gopi neu gopiâu dyblyg o ddogfennau a chwiliadau. Yn gyffredinol nid yw HwF ar gael i fusnesau chwaith.

## Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

Lleihau'r cyllid trethdalwyr sydd ei angen yn y pen draw. Nid yw'r rhan fwyaf o ffioedd wedi cynyddu ers 2016. Nod y cynnig hwn yw cynyddu'r ffioedd dethol yn yr awdurdodaethau a amlinellir ym Mharagraff 3 yn ôl chwyddiant i gwrdd â chostau cynyddol. Mae'r codiadau arfaethedig hyn yn adlewyrchu chwyddiant hanesyddol ac felly nid ydynt yn gynnydd mewn termau real

8. Yn unol â dyletswyddau statudol yr Arglwydd Ganghellor a nodir ym Mharagraff 3, mae'n bwysig yn awr ein bod yn ceisio cynyddu ffioedd i gwrdd â chostau cynyddol, yn enwedig gan nad yw llawer o'r ffioedd hyn wedi cynyddu ers 2016, er gwaethaf cynnydd yng nghostau GLITEM yn ystod y cyfnod hwn. Bydd hyn yn lleihau rhywfaint ar gost ariannu GLITEM i drethdalwyr ac yn caniatáu i'r gwasanaeth redeg yn fwy effeithlon ac effeithiol. Er mwyn diogelu mynediad at gyfiawnder i'r rheini sydd ar incwm isel, rydym hefyd yn cynnig chwyddo trothwyon incwm HwF ar gyfer pobl sengl yn ogystal â'r premiwm cwpl a phlenty<sup>4</sup> i lefelau Ebrill 2021 yn unol â chwyddiant, wedi'i ôl-ddyddio i 2016.
9. Dim ond i ffioedd penodol y bydd y newidiadau chwyddiant yn y cynnig hwn yn berthnasol. Mae rhagor o wybodaeth am gwmpas y codiadau arfaethedig ar gael ym Mharagraffau 12-17 isod.
10. Byddai'r cynnydd mewn ffioedd yn codi incwm gros amcangyfrifedig o £21-26m y flwyddyn ar ôl ei roi ar waith, gan ostwng i £18-£22m y flwyddyn ar ôl cyfrif am ddileu ffioedd. Disgwylir i'r newidiadau i gynllun HwF gostio £5-6m y flwyddyn mewn incwm ffioedd is, ac felly bydd y pecyn cyfan yn codi amcangyfrif o £11-£17m i'r adran. Bydd y cyllid amcangyfrifedig o'r cynnig hwn yn helpu i ariannu GLITEM ac yn ein galluogi i barhau i sybsideiddio'r meysydd nad ydynt yn denu ffi. Gallai'r amcangyfrif terfynol o'r incwm newid o ystyried ei bod yn anodd rhagweld cyfraddau chwyddiant yn gywir ar hyn o bryd.
11. Petai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, byddai'n dod i rym ddiwedd mis Medi/dechrau mis Hydref 2021.

## Cwmpas yr ymgynghoriad hwn

12. Petai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, byddai'n cynyddu 133 o ffioedd yn ôl chwyddiant wedi'i ôl-ddyddio i 2016 neu, os yw'r ffioedd hyn wedi cael eu hôl-ddyddio ers 2016, i'r flwyddyn y cafodd y ffi ei chodi ddiwethaf. Gall y ffioedd hyn newid yn dilyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Cynhwysir y ffioedd yr effeithir arnynt yn y gorchmynion ffioedd canlynol:

- Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008 Rhif 1054 (yn effeithio ar 43 ffi);

---

<sup>4</sup> Mae hyn yn cynnwys y trothwyon yng nghynllun dileu ffioedd y Goruchel Lys

## Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

- Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 Rhif 1053 (yn effeithio ar 67 ffi);
  - Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchod 2007 Rhif 1745 (yn effeithio ar 3 ffi);  
a
  - Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008 Rhif 1052 (yn effeithio ar 20 ffi).
13. Mae'r ffioedd sydd i'w codi naill ai'n tan-dalu o'i gymharu â'u 'cost uned' (amcangyfrif o gost y gwasanaeth) neu wedi'u pennu dan y pŵer ffioedd uwch, sy'n golygu eu bod eisoes wedi cael cymeradwyaeth seneddol benodol i gael eu pennu uwchlaw cost y gwasanaeth. Mae costau uned wedi cael eu hamcangyfrif ar gyfer 2018/19 a'u chwyddo hyd at Ebrill 2021 ar gyfer y ffioedd arfaethedig a amlinellir yn **Atodiad A**. Ac ystyried yr ansicrwydd economaidd presennol a'r anhawster i ragweld cyfraddau chwyddiant yn gywir ar hyn o bryd, dangosol yw'r ffioedd arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn a byddant yn cael eu diwygio, ar sail y gwir ffigurau, cyn gweithredu'r ffioedd diwygiedig.<sup>5</sup>
14. Ar hyn o bryd, rydym wedi eithrio rhai ffioedd o'r cynnig, gan gynnwys, er enghraifft:
- Ffioedd tribiwnlysoedd;
  - Ffioedd a gafodd eu gostwng i lefelau adennill costau ym mis Awst 2020;
  - Ffioedd a gynhwyswyd yn Ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Cysoni'r ffioedd ar gyfer hawliadau meddiant ac arian sifil ar-lein ac ar bapur;
  - Ffioedd gwneud cais am brofiant;
  - Ffioedd Adolygiadau Barnwrol mewn Llysoedd Sifil;
  - Ffioedd sydd wedi'u pennu ar hyn o bryd ar £0; a
  - Ffioedd nad ydynt yn newid ar ôl eu talgrynnu<sup>6</sup>.
15. Mae **Atodiad A** yn cynnwys rhestr lawn o'r 133 o ffioedd sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn.
16. Mae'r cynnig hefyd yn ceisio chwyddo trothwyon incwm HwF (gan gynnwys y cynllun dileu ffioedd yng Ngoruchel Lys y DU sydd â'r un trothwyon incwm) yn unol â chwyddiant ers 2016. Mae'r trothwyon incwm arfaethedig ar gyfer HwF, y premiwm cwpl a'r premiwm plentyn wedi'u nodi yn **Atodiad B**.

<sup>5</sup> Dangosol i raddau helaeth yw'r codiadau chwyddiant a ystyrir yn y cynnig hwn, o ystyried y bydd y rhain yn cael eu diwygio gyda ffigurau alldro chwyddiant cyhoeddedig pan fydd y rhain ar gael, a allai gynyddu neu leihau'r newidiadau i'r ffioedd sy'n cael eu hamcangyfrif ar hyn o bryd. Byddwn hefyd yn archwilio effaith ffigurau alldro chwyddiant ar gostau GLITEM.

<sup>6</sup> I'r bunt gyfan agosaf os ydynt dros £2, fel arall i'r 10c agosaf

17. Mae'r Llywodraeth yn ceisio barn gan ddefnyddwyr yr awdurdodaethau llys yr effeithir arnynt, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cynghori, y sector gwirfoddol a phawb sydd â diddordeb yng ngwaith GLITEM.

## Deddfwriaeth

18. Mae ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd yn ddarostyngedig i ofynion cyfreithiol ac ystyriaethau polisi. Mae'r polisi cyffredinol ar godi ffioedd ar draws y Llywodraeth i gyd wedi'i nodi yn llawlyfr Trysorlys EM, 'Managing Public Money', sy'n nodi mai'r dull safonol yw pennu ffioedd i adfer cost lawn y gwasanaeth. Fel egwyddor, fel arfer dylid gosod ffioedd ar lefel sy'n adennill o leiaf ran o gost y gwasanaeth.
19. Mae'r pŵer i godi ffioedd yn llysoedd Cymru a Lloegr wedi'i nodi mewn nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r pŵer allweddol i bennu ffioedd yn adran 92 Deddf Llysoedd 2003, sy'n rhoi'r pŵer i'r Arglwydd Ganghellor, gyda chaniatâd y Trysorlys, i bennu'r ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas ag unrhyw beth y mae'r Uwch lysoedd, y llys teulu, y llysoedd sirol a'r llysoedd ynadon yn ymdrin ag ef. Wrth bennu ffioedd dan y pŵer hwn, rhaid i'r Arglwydd Ganghellor roi sylw dyledus i'r egwyddor na ddylid gwrthod mynediad i'r llysoedd. Pennir y rhan fwyaf o ffioedd llys dan adran 92 ac fe'u codir yn unol â chost y gwasanaeth neu oddi tani. Gelwir y rhain yn ffioedd lefel arferol.
20. Mae rhai ffioedd llys, gan gynnwys rhai o'r ffioedd a gynhwysir yn y cynnig a nodir yn y ddogfen hon, yn cael eu pennu ar lefel uwch na chost y gwasanaeth. Gelwir y rhain yn ffioedd lefel uwch a dim ond gyda chymeradwyaeth seneddol benodol y gellir eu pennu ar gyfradd o'r fath. Pennir ffioedd uwch dan y pŵer a ddarperir yn adran 180 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 (y Ddeddf).
21. Mae'r pŵer a ddarperir dan a.180 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor, cyn pennu ffi ar lefel uwch, ystyried:
  - a. sefyllfa ariannol y llysoedd a'r tribiwnlysoedd gan gynnwys unrhyw gostau nad ydynt yn cael eu talu gan yr incwm presennol o ffioedd; a
  - b. cystadleurwydd y farchnad gwasanaethau cyfreithiol.
22. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried y ffactorau uchod yn ogystal â phryderon y bydd codiadau yn rhwystro mynediad at gyfiawnder. Am y rhesymau a amlinellir yn 'Y Cynnig' uchod, mae angen cyfrannu at ariannu costau GLITEM. Bydd hyn yn gwella sefyllfa ariannol bresennol GLITEM, yn enwedig yn ystod yr adferiad

## Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

ar ôl Covid-19. O ran cystadleurwydd y farchnad gwasanaethau cyfreithiol, nid ydym yn disgwyl i godiadau chwyddiant i ffioedd gael effaith negyddol ar gystadleuaeth yn y farchnad gwasanaethau cyfreithiol. Teimlwn hefyd na fydd cynyddu ffioedd yn ôl chwyddiant yn atal mynediad at gyfiawnder, yn enwedig yng ngoleuni ein cynigion ynghylch cynnydd yn unol â chwyddiant yng nghynllun dileu ffioedd HwF. Rydym wedi cyhoeddi tri Asesiad Effaith cysylltiedig ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

23. Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig yn dod i rym drwy offeryn statudol negyddol ac ar gyfer y codiadau chwyddiant i ffioedd byddai'n cynnwys diwygiadau i'r Gorchmynion Ffioedd canlynol:
  - Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008 Rhif 1054
  - Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 Rhif 1053
  - Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchod 2007 Rhif 1745
  - Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008 Rhif 1052
24. Byddai'r cynnig i gynyddu Help i Dalu Ffioedd, petai'n cael ei weithredu, yn cynnwys diwygio'r rheolau HwF sydd wedi'u nodi yn Atodlen 2 pob gorchymyn ffioedd.
25. Mae'r Gorchmynion Ffioedd gwreiddiol a diwygiadau dilynol ar gael ar-lein drwy chwilio am y Gorchmynion Ffioedd uchod yn: <https://www.legislation.gov.uk/>.

## Ymgynghoriadau blaenorol

26. Mae nifer o'r ffioedd a ystyrir yn y cynnig hwn wedi cael eu cynnwys mewn ymgynghoriadau blaenorol, er enghraifft, ffioedd hawliadau bychain, ffioedd ysgariad, a ffioedd sy'n ymwneud ag achosion o dan Ddeddf Plant 1989. Yn y rhan fwyaf o ymgynghoriadau, mynegwyd pryderon ynghylch effaith andwyol cynyddu ffioedd, hyd yn oed os oedd y cynnydd yn fach. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, "Enhanced Court Fees: The Government Response to Part 2 of the Consultation on Reform of Court Fees and Further Proposals for Consultation" yn dangos na ddylai codiadau bach mewn ffioedd effeithio ar y galw na rhwystro mynediad at gyfiawnder. Er mwyn sicrhau mynediad at gyfiawnder, mae HwF ar waith ar gyfer y rhai na allant fforddio ffioedd.

## Effaith cynyddu ffioedd yn ôl chwyddiant

27. Mae tri Asesiad Effaith wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Mae'r cyntaf yn ymdrin ag effaith cynnydd yn ôl chwyddiant i rai ffioedd llys, mae'r ail yn ymdrin ag effaith cynyddu trothwyon incwm HwF, ac mae'r trydydd



## Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

yn Asesiad Effaith trosfwaol sy'n ystyried y cynnydd o ran ffioedd llys ac i HwF. Mae'r rhain yn nodi'r amcangyfrif o'r effaith y byddai'r cynnig yn ei chael pe bai'n cael ei roi ar waith. Mae'r Asesiadau Effaith yn nodi ei bod yn debygol yr effeithir yn arbennig ar GLITEM, defnyddwyr llys (unigolion, busnesau ac awdurdodau lleol), darparwyr gwasanaethau cyfreithiol, sefydliadau cymorth yn y sector cynghori a gwirfoddol, trethdalwyr a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae rhagor o wybodaeth am effeithiau penodol i'w gweld ym Mharagraffau 39-40.

28. Mae'r cynnig yn debygol o arwain at gostau ychwanegol i GLITEM a'r sector gwirfoddol/a chynghori (oherwydd newidiadau sy'n ofynnol yn sgil ei weithredu) yn ogystal ag i unigolion, busnesau a'r sector cyhoeddus (oherwydd ffioedd uwch).

## Cyfnod ymgynghori

29. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar y cynnig y dylid cynyddu rhai ffioedd a amlinellir yn **Atodiad A** yn unol â chwyddiant a gaiff ei ôl-ddyddio i 2016, neu'n ôl i'r tro olaf y diweddarwyd y ffi, os yw hyn yn fwy diweddar. Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn gofyn am sylwadau ar ddiweddarau trothwyon incwm HwF yn unol â chwyddiant ers 2016 fel yr amlinellir yn **Atodiad B**. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw 17 Mai 2021.
30. Mae'r papur ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar-lein yn GOV.UK. Anfonir copïau o'r papur ymgynghori hefyd yn uniongyrchol at:
  - Detholiad o ddefnyddwyr yr effeithir arnynt, er enghraifft, defnyddwyr y llys, y sector cynghori, y sector gwirfoddol, busnesau yr effeithir arnynt, grwpiau hawliau/ cyrff cynrychioladol, cymdeithasau ac awdurdodau llywodraeth leol.
  - Y Farnwriaeth.
31. Croesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â barn ar y pwnc a drafodir yn y papur hwn neu ddiddordeb ynddo.

## Holiadur

32. Ffioedd yw prif ffynhonnell incwm uniongyrchol GLITEM ac mae'n bwysig eu hadolygu er mwyn cyflawni dyletswydd statudol yr Arglwydd Ganghellor i sicrhau system llysoedd effeithlon ac effeithiol. Er mwyn sicrhau bod y llysoedd yn cael eu cyllido'n briodol a'u bod yn gynaliadwy dros amser, bydd angen cynyddu'r ffioedd a delir gan ddefnyddwyr y gwasanaeth.

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylid cynyddu ffioedd o bryd i'w gilydd yn unol â chwyddiant? Rhowch resymau dros eich ateb.

33. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor hefyd ddyletswydd bersonol a statudol i amddiffyn mynediad at gyfiawnder. Cynllun dileu ffioedd yw Help i Dalu Ffioedd (HwF) sydd ar gael i ddefnyddwyr y mae'r codiadau chwyddiant arfaethedig yn effeithio arnynt. Mae i'r cynllun Help i Dalu Ffioedd nifer o wahanol feini prawf ar gyfer dileu ffioedd, gan gynnwys incwm. Mae Goruchaf Lys y DU yn cynnig cynllun tebyg, sy'n defnyddio nifer o'r un meini prawf ar gyfer dileu ffioedd, gan gynnwys incwm.

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylid cynyddu trothwyon incwm y cynllun Help i Dalu Ffioedd a Goruchaf Lys y DU, gan gynnwys premiymau cyplau a phlant, yn unol â chwyddiant? Rhowch resymau dros eich ateb.

34. Cafodd y rhan fwyaf o'r ffioedd sydd o fewn cwmpas y cynnig hwn eu cynyddu ddiwethaf yn 2016.

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylid codi ffioedd yn ôl lefelau chwyddiant rhwng 2016 a mis Ebrill 2021 (ac eithrio ffioedd sydd wedi'u codi ar ôl 2016) ac y dylid codi ffioedd o'r flwyddyn y cawsant eu diweddarau ddiwethaf? Rhowch resymau dros eich ateb.

35. Yn unol â'r chwyddiant ffioedd, rydym yn cynnig cynyddu trothwyon incwm y cynllun Help i Dalu Ffioedd i lefelau Ebrill 2021 yn unol â chwyddiant wedi'i ôl-ddyddio i 2016.

**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylid defnyddio chwyddiant ers 2016 ar gyfer trothwyon incwm y cynllun Help i Dalu Ffioedd er mwyn eu codi i lefelau Ebrill 2021? Rhowch resymau dros eich ateb.

36. Amlinellir y rhestr lawn o ffioedd sydd o fewn cwmpas y cynnig hwn yn **Atodiad A**. Pennir y ffioedd hyn gan y gorchmynion ffioedd perthnasol.

**Cwestiwn 5:** A oes unrhyw ffioedd a amlinellir yn **Atodiad A** na ddylid eu cynnwys yn y codiadau chwyddiant?

37. Edrychwch ar yr adran Galw o'r Asesiad Effaith ffioedd Llys a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn ar gyfer y cwestiwn canlynol.

**Cwestiwn 6:** Fel rhan o'n hasesiad o'r ymateb posibl o ran galw, byddem yn ddiolchgar o gael adborth gan ymgynghoreion ar bwysigrwydd cymharol gwahanol ffactorau yn y penderfyniad i fynd ag achos i'r llys. Gallai'r ffactorau hyn gynnwys ffi'r llys, costau cysylltiedig eraill, y tebygolrwydd o lwyddo, y tebygolrwydd o adennill unrhyw ddyled, unrhyw gydnabyddiaeth bersonol a geir, y rheidrwydd i fynd ag achos i'r llys, ac unrhyw gymhelliant anariannol megis unrhyw brofiad blaenorol o brosesau'r llys.

38. Edrychwch ar yr asesiad cydraddoldeb isod ar gyfer y cwestiwn canlynol.

**Cwestiwn 7:** Ydych chi o'r farn y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, a oes unrhyw addasiadau posibl i'r polisi y dylem eu hystyried i liniaru unrhyw effaith anghymesur? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.**

# Amdanoch chi

Llenwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi.

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl eich swydd</b> neu ym mha swyddogaeth yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ayb.)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw'r cwmni/sefydliad</b> (os yw'n berthnasol):	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod post</b>	
Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, nodwch enw'r grŵp a rhowch grynodedb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

---



---



---



---

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 17 Mai 2021 i:

## **Fees Policy Team**

Weinyddiaeth Gyfiawnder/ Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ

**E-bost:** [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)

## **Cwynion neu sylwadau**

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## **Copiâu ychwanegol**

Mae copiâu ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn a hefyd ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Gellir gwneud cais am gopiâu o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill trwy anfon e-bost i [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk).

## **Cyhoeddi'r ymateb**

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ym mis Gorffennaf 2021. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

## **Grwpiau cynrychioliadol**

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## **Cyfrinachedd**

Drwy ymateb i'r ymgynghoriad hwn, rydych yn cydnabod y bydd eich ymateb, ynghyd â'ch enw/manylion corfforaethol, yn cael ei wneud yn gyhoeddus pan fydd yr Adran yn

## Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn bwysig er mwyn bod yn dryloyw bod y cyhoedd yn gallu gweld pwy sydd wedi ymateb i ymgynghoriadau'r Llywodraeth a beth yw eu barn. Ar ben hynny, efallai y bydd yr Adran yn dewis peidio â thynnu eich enw/manylion oddi ar eich ymateb yn nes ymlaen, er enghraifft, os byddwch yn newid eich meddwl neu'n ceisio cael eich 'anghofio' o dan ddeddfwriaeth diogelu data, os yw'r Adran o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i'r manylion hynny fod ar gael yn gyhoeddus. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw/manylion corfforaethol gael eu gwneud yn gyhoeddus fel hyn, fe'ch cynghorir i ddarparu ymateb yn ddienw (er enghraifft 'perchennog busnes lleol', 'aelod o'r cyhoedd'). Neu, gallwch ddewis peidio ag ymateb.

# Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

## Asesiad effaith

39. Mae'r Asesiadau Effaith yn nodi bod GLITEM, defnyddwyr llys (unigolion, busnesau ac awdurdodau lleol), darparwyr gwasanaethau cyfreithiol, sefydliadau cymorth yn y sector cynghori a gwirfoddol, trethdalwyr a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael eu heffeithio'n arbennig.
40. Mae'r cynnig yn debygol o arwain at gostau ychwanegol i GLITEM a'r sector gwirfoddol/a chynghori (oherwydd newidiadau sy'n ofynnol yn sgil ei weithredu) ac i fusnesau a'r sector cyhoeddus (oherwydd ffioedd uwch). Mae'r asesiadau effaith ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/increasing-selected-court-fees-income-thresholds>

## Cydraddoldeb

41. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal. Dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i ni ystyried effeithiau cynigion polisi ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r canlynol:
  - dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu oddi tani;
  - datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu;
  - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu.
42. O'n dadansoddiad, credwn na fydd y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd llys yn arwain at wahaniaethu uniongyrchol. Bydd y ffioedd hyn yn berthnasol i bob defnyddiwr llys ac ni fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig.
43. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd gorgynrychiolaeth o bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol ymysg defnyddwyr llys o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol ym mhob awdurdodaeth llys. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/increasing-selected-court-fees-income-thresholds>

## **Yr Iaith Gymraeg**

44. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith, byddai hefyd yn effeithio ar y rheini sy'n siarad Cymraeg. Mae'r cynnig hwn yn cynnwys newidiadau i ffioedd sydd hefyd yn effeithio ar ddefnyddwyr y llysoedd sy'n siarad Cymraeg, ond ni ddylai amharu'n anghymesur ar eu dealltwriaeth o ffioedd.
45. Gellir gweld fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon yn:  
<https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/increasing-selected-court-fees-income-thresholds>. Darperir copi Cymraeg o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb pan wneir cais.



# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn Egwyddorion Ymgynghori 2018 Swyddfa'r Cabinet sydd i'w gweld yma: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/691383/Consultation\\_Principles\\_\\_1\\_\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1__.pdf)

## Atodiad A: Ffioedd y bwriedir eu codi

Mae'r tablau isod yn manylu ar y ffioedd rydym yn bwriadu eu codi, gan gynnwys y ffi bresennol a'r ffi arfaethedig. O ystyried yr ansicrwydd economaidd presennol a'r anhawster o ran rhagweld cyfraddau chwyddiant yn gywir ar hyn o bryd, dylech nodi mai ffigurau dangosol yw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn a byddant yn cael eu diwygio, ar sail yr union ffigurau, cyn gweithredu'r ffi ddiwygiedig.

Mae'r newidiadau arfaethedig i ffioedd yn cael eu dadansoddi yn ôl y gorchmynion ffioedd perthnasol y cyfeirir atynt.

### Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchod 2007 Rhif 1745

*Mae'r ffioedd sydd o fewn cwmpas Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchod yn cynnwys y ffi i wneud cais am weithredu o dan, gwrandawriad o dan neu i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.*

Cyf OS	Disgrifiad	Cyfredol	Cynnig	Cynnydd
4	Ffi gwneud cais (Erthygl 4)	£365	£377	£12
5	Ffi apelio (Erthygl 5)	£230	£237	£7
6	Ffioedd gwrandawriad (Erthygl 6)	£485	£500	£15

### Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008 Rhif 1052

*Mae'r ffioedd sydd o fewn cwmpas y Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon yn cynnwys ffioedd megis ffioedd gwneud cais, ffioedd gwrandawriadau, ffioedd copi, ffioedd cyhoeddi ar gyfer dogfennau neu ffioedd ar gyfer codi gwarantau.<sup>7</sup>*

Cyf OS	Disgrifiad	Cyfredol	Cynnig	Cynnydd
1.1	Cais i YH gyflawni swyddogaeth heb fod ar safle llys	£25	£26	£1

<sup>7</sup> Nodwch, os gwelwch yn dda, nad yw Help i Dalu Ffioedd ar gael ar gyfer ffioedd copi

### Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

<b>2.1</b>	Cais i gyflwyno achos ar gyfer barn yr Uchel Lys	£135	£139	£4
<b>2.3</b>	Apêl – achosion dan Atodlen 5, Deddf Trwyddedu 2003	£60	£63	£3
<b>2.4</b>	Apêl (dim ffi arall wedi'i phennu)	£60	£63	£3
<b>3.2</b>	Cais am dystysgrif boddhad	£15	£16	£1
<b>3.3</b>	Cais am gopi ardystiedig o femorandwm euogfarn	£20	£21	£1
<b>3.4</b>	Cais am dystysgrif/dogfen ardystiedig (dim ffi wedi'i phennu)	£20	£21	£1
<b>5.1a</b>	Copi o ddogfen (10 tudalen neu lai)	£10	£11	£1
<b>5.2</b>	Copi electronig o ddogfen (ar gyfer pob copi)	£10	£11	£1
<b>6.1</b>	Cais am drwydded/cydsyniad/awdurdod (dim ffi arall wedi'i phennu)	£25	£27	£2
<b>6.2</b>	Cais i adnewyddu/amrywio trwydded gyfredol	£25	£27	£2
<b>6.3</b>	Cais i ddirymu trwydded (dim ffi arall wedi'i phennu)	£25	£27	£2
<b>7.1</b>	Wrth gymryd ardystiad cwnstabl neu gwnstabl gwirfoddol	£10	£11	£1
<b>7.2</b>	Ar gyfer pob llw (ayb) pan nad oes ffi arall wedi'i phennu	£25	£27	£2
<b>8.2a</b>	Cais am hawl/caniatâd i gychwyn achos (dim ffi arall wedi'i phennu)	£116	£125	£9
<b>8.2b</b>	Achos pan fydd hawl/caniatâd wedi cael ei roi	£116	£125	£9

### Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

<b>9.1</b>	Cais am warant mynediad	£20	£22	£2
<b>9.2</b>	Cais am unrhyw warant arall (dim ffi arall wedi'i phennu)	£75	£81	£6
<b>10.1</b>	Cais am warant carcharu	£245	£264	£19
<b>10.2</b>	Gwarant carcharu (Deddf Cynnal Plant 1991)	£40	£41	£1

### Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008 Rhif 1054

*Mae'r ffioedd sydd o fewn cwmpas y Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu yn cynnwys ffioedd megis achosion a ddygwyd o dan Ddeddf Plant 1989, ffioedd sy'n ymwneud ag ysgariad, copïau o ddogfennau a ffioedd cyhoeddi ar gyfer tystysgrifau neu warantau.*

<b>Cyf OS</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Cyfredol</b>	<b>Cynnig</b>	<b>Cynydd</b>
<b>1.2</b>	Ffeilio cais am ysgariad, dirymiad neu i ddiddymu partneriaeth sifil	£550	£592	£42
<b>1.8</b>	Cais am orchymyn rhiant	£215	£232	£17
<b>2.1a</b>	Cyfrifoldeb rhiant (adran 4(1)(c) neu (3), 4A(1)(b) neu (3))	£215	£232	£17
<b>2.1b</b>	Cyfrifoldeb rhiant (adran 4ZA(1)(c) neu (6))	£215	£232	£17
<b>2.1c</b>	Gwarcheidwaid (adran 5(1) neu 6(7))	£215	£232	£17
<b>2.1d</b>	Gorchmynion adran 8 (adran 10(1) neu (2))	£215	£232	£17
<b>2.1e</b>	Gorchmynion gorfodi (adran 11J(2))	£215	£232	£17
<b>2.1f</b>	lawndal am golled ariannol (adran 11O(2))	£215	£232	£17

### Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

<b>2.1g</b>	Newid cyfenw plentyn neu ei dynnu o awdurdodaeth tra bo gorchymyn preswyllo mewn grym (adran 13(1))	£215	£232	£17
<b>2.1h</b>	Gorchmynion gwarcheidwaid arbennig (adran 14A(3) neu (6)(a), 14C(3) neu 14D(1))	£215	£232	£17
<b>2.1i</b>	Gorchymyn llety diogel (adran 25) – Lloegr	£215	£232	£17
<b>2.1ia</b>	Gorchymyn llety diogel (adran 25) – Cymru	£215	£232	£17
<b>2.1j</b>	Newid cyfenw plentyn neu ei dynnu o awdurdodaeth tra bo gorchymyn gofal mewn grym (adran 33(7))	£215	£232	£17
<b>2.1k</b>	Cyswllt gyda phlentyn mewn gofal (adran 34(2), (3), (4) neu (9))	£215	£232	£17
<b>2.1l</b>	Gorchymyn goruchwyllo addysg (adran 36(1))	£215	£232	£17
<b>2.1m</b>	Amrywio neu ryddhau ayb gorchmynion gofal a goruchwyllo (adran 39)	£215	£232	£17
<b>2.1n</b>	Gorchymyn asesu plant (adran 43(1))	£215	£232	£17
<b>2.1o</b>	Gorchmynion amddiffyn brys (adrannau 44, 45 a 46)	£215	£232	£17
<b>2.1p</b>	Gwarant i gynorthwyo person sy'n arfer pwerau dan orchymyn amddiffyn brys (adran 48)	£215	£232	£17
<b>2.1q</b>	Gorchymyn adfer (adran 50)	£215	£232	£17
<b>2.1r</b>	Canslo, amrywio neu dynnu neu osod amod cofrestru ar ofalwr plant neu ofalwr dydd (adran 79K)	£215	£232	£17

**Cynnig ar gyfer diwygio**

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

<b>2.1s</b>	Gwarant i gynorthwyo person sy'n arfer pwerau i chwilio am blant neu i archwilio eiddo (adran 102)	£215	£232	£17
<b>2.1t</b>	Ceisiadau mewn perthynas â gorchmynion gorfodi (paragraff 4(2), 6(2), 7(2) neu 9(2) o Atodlen A1)	£95	£102	£7
<b>2.1v</b>	Darpariaeth ariannol ar gyfer plant (paragraff 1(1) neu (4), 2(1) neu (5), 5(6), 6(5), (7) neu (8), 8(2), 10(2), 11 neu 14(1) o Atodlen 1)	£215	£232	£17
<b>2.1w</b>	Cymeradwyaeth gan y llys i blentyn sydd yng ngofal awdurdod lleol i fyw dramor (paragraff 19(1) o Atodlen 2 – Lloegr)	£215	£232	£17
<b>2.1wa</b>	Cymeradwyaeth gan y llys i blentyn sydd yng ngofal awdurdod lleol i fyw dramor (paragraff 19(1) o Atodlen 2) - Cymru	£215	£232	£17
<b>2.1x</b>	Ymestyn gorchymyn goruchwyllo (paragraff 6 o Atodlen 3)	£215	£232	£17
<b>2.1y</b>	Ymestyn neu ryddhau gorchymyn goruchwyllo addysg (paragraff 15(2) neu 17(1) o Atodlen 3)	£215	£232	£17
<b>2.1z</b>	paragraff 8(1) o Atodlen 8 (apeliadau'n ymwneud â rhieni maeth)	£215	£232	£17
<b>2.2</b>	Cais am achos dan Adran 31 o'r Ddeddf	£2,055	£2,213	£158
<b>3.1</b>	Cais/caniatâd i wneud cais i fabwysiadu	£170	£183	£13
<b>3.2</b>	Cais am orchymyn lleoli (dan adran 22)	£455	£490	£35
<b>3.3</b>	Cais i'r Uchel Lys	£170	£183	£13

### Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

4.1	Cais i hysbysiad o rybudd gael ei atodi i orchymyn cyswllt	£50	£54	£4
5.1	Cais (heb rybudd)	£50	£53	£3
5.2	Cais am ddyfarniad nisi, gorchymyn amodol, gorchymyn gwahanu (dim ffi os na chaiff ei amddiffyn)	£50	£54	£4
5.3	Cais (ar rybudd) (oni chaiff ei restru fel arall)	£155	£167	£12
5.4	Cais am orchymyn ariannol	£255	£275	£20
8.1a	Copi o ddogfen (10 tudalen neu lai)	£10	£11	£1
8.2	Copi electronig o ddogfen (ar gyfer pob copi)	£10	£11	£1
9.3	Cyhoeddi tystysgrif costau diffyg dalu - Teulu	£60	£65	£5
12.1	Cais i holi dyledwr dyfarniad neu unigolyn arall	£50	£54	£4
13.3	Codi gwarant i feddiannu/gwarant trosglwyddo	£110	£118	£8

### Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 Rhif 1053

*Mae'r ffioedd sydd o fewn cwmpas y Gorchymynion Ffioedd Achosion Sifil yn cynnwys ffioedd gwrandawriad hawliadau bychain, ffioedd copi ar gyfer dogfennau, ffioedd sy'n ymwneud â rhybudd o wŷs, ffioedd sy'n ymwneud â rhwymediau eraill, a ffioedd sy'n ymwneud â chyhoeddi tystysgrifau neu orchymynion penodol.*

Cyf OS	Disgrifiad	Cyfredol	Cynnig	Cynydd
1.5CC	Unrhyw rwymedi arall (Llys Sirol)	£308	£332	£24
1.5HC	Unrhyw rwymedi arall (Uchel Lys)	£528	£569	£41

### Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

<b>1.6</b>	Ffeilio achos yn erbyn parti dienw	£55	£59	£4
<b>1.8a</b>	Caniatâd i gychwyn achos	£55	£59	£4
<b>1.8b</b>	Asesu costau (dan Ran 3 o Ddeddf Cyfreithwyr 1974)	£55	£59	£4
<b>2.1a</b>	Ffi gwrandawriad: Achos amldrac	£1,090	£1,174	£84
<b>2.1ci</b>	Ffi gwrandawriad: Achos hawliadau bach (nad yw'n fwy na 300 GBP)	£25	£27	£2
<b>2.1cii</b>	Ffi gwrandawriad: Achos hawliadau bach (dros 300 ond o dan 500 GBP)	£55	£59	£4
<b>2.1ciii</b>	Ffi gwrandawriad: Achos hawliadau bach (dros £500 ond o dan £1,000)	£80	£86	£6
<b>2.1civ</b>	Ffi gwrandawriad: Achos hawliadau bach (dros 1000 ond o dan 1500 GBP)	£115	£124	£9
<b>2.1cv</b>	Ffi gwrandawriad: Achos hawliadau bach (dros £1,500 ond o dan £3,000)	£170	£183	£13
<b>2.1cvi</b>	Ffi gwrandawriad: Achos hawliadau bach (dros 3000 GBP)	£335	£352	£17
<b>2.2</b>	Hysbysiad apelydd/atebydd (Uchel Lys)	£240	£259	£19
<b>2.3a</b>	Hysbysiad apelydd/atebydd (Llys Sirol – hawliadau bach)	£120	£129	£9
<b>2.3b</b>	Hysbysiad apelydd/atebydd (Llys Sirol – hawliadau eraill)	£140	£151	£11
<b>2.4(a)</b>	Cais cyffredinol (ar rybudd) heb gynnwys HA'97 a Thaliad y Gronfa Llys	£255	£275	£20



### Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

<b>2.5(b)</b>	Cais cyffredinol (drwy gydsyniad/heb rybudd) HA'97 a Thaliad y Gronfa Llys	£50	£54	£4
<b>3.1b</b>	Deiseb ar gyfer methdaliad (a gyflwynir gan gredydwr/unigolyn arall)	£280	£302	£22
<b>3.2</b>	Deiseb ar gyfer gorchymyn gweinyddu	£280	£302	£22
<b>3.3</b>	Unrhyw ddeiseb arall	£280	£302	£22
<b>3.4a</b>	Cais am dystysgrif rhyddhau o fethdaliad	£70	£75	£5
<b>3.4b</b>	Copi o dystysgrif rhyddhau o fethdaliad	£10	£11	£1
<b>3.6</b>	Ffi Dirwyn i Ben	£160	£172	£12
<b>3.11</b>	Cais mewn achos (drwy gydsyniad/heb rybudd)	£25	£26	£1
<b>3.12</b>	Cais mewn achos (gyda rhybudd)	£95	£100	£5
<b>4.1a</b>	Copi o ddogfen (10 tudalen neu lai)	£10	£11	£1
<b>4.2</b>	Copi electronig o ddogfen (ar gyfer pob copi)	£10	£11	£1
<b>5.1</b>	Lle mae'r parti sy'n ffeilio'r cais yn cael cymorth cyfreithiol	£220	£237	£17
<b>5.2a</b>	Costau hyd at 15000 GBP	£369	£397	£28
<b>5.2b</b>	Costau 15000 - 50000 GBP	£743	£800	£57
<b>5.2c</b>	Costau 50000 - 100000 GBP	£1,106	£1,191	£85
<b>5.2d</b>	Costau 100000 - 150000 GBP	£1,480	£1,594	£114
<b>5.2e</b>	Costau 150000 - 200000 GBP	£1,848	£1,991	£143

### Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

<b>5.2f</b>	Costau 200000 - 300000 GBP	£2,772	£2,986	£214
<b>5.2g</b>	Costau 300000 - 500000 GBP	£4,620	£4,976	£356
<b>5.2h</b>	Costau dros 500000 GBP	£6,160	£6,635	£475
<b>5.3</b>	Cyhoeddi tystysgrif costau diffygddalu - Sifil	£66	£71	£5
<b>5.4</b>	Apêl (achos asesu manwl) - sifil	£231	£249	£18
<b>5.5</b>	Gofyn/cais am osod tystysgrif costau diffygddalu o'r neilltu	£121	£130	£9
<b>6.1</b>	Ffeilio cais am asesiad manwl ar gyfer COP	£85	£88	£3
<b>6.2</b>	Apelio yn erbyn penderfyniad asesiad costau COP	£65	£70	£5
<b>7.1</b>	Selio gwrit rheoli/meddiannu/trosglwyddo (Uchel llys)	£66	£71	£5
<b>7.2</b>	Gorchymyn i ddyledwr dyfarniad neu unigolyn arall fynychu llys	£55	£59	£4
<b>7.3a</b>	Gorchymyn dyled trydydd parti neu benodi derbynnydd drwy weithrediad ecwitiol.	£110	£118	£8
<b>7.3b</b>	Cais am orchymyn arwystlo	£110	£118	£8
<b>7.4</b>	Cais am wŷs dyfarniad	£110	£118	£8
<b>7.5</b>	Cofrestru dyfarniad neu orchymyn, neu ganiatâd i orfodi dyfarniad cyflafareddu, neu am dystysgrif neu gopi ardystiedig o ddyfarniad neu orchymyn i'w ddefnyddio dramor	£66	£71	£5
<b>8.1</b>	Cais am orchymyn i adennill dyled traffig ffyrdd benodol	£8	£9	£1

### Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

<b>8.3</b>	Cais i'w gwneud yn ofynnol i ddyledwr dyfarniad fynychu llys	£55	£59	£4
<b>8.4a</b>	Cais am orchymyn dyled trydydd parti	£110	£118	£8
<b>8.4b</b>	Cais am orchymyn arwystlo	£110	£118	£8
<b>8.5</b>	Cais am wŷs dyfarniad	£110	£118	£8
<b>8.6</b>	Codi gwarant i feddiannu/gwarant trosglwyddo	£121	£130	£9
<b>8.7</b>	Cais am orchymyn atafaelu enillion - Sifil	£110.00	£118.00	£8
<b>8.9</b>	Cais i orfodi dyfarniad o swm o arian neu unrhyw benderfyniad arall a wnaed gan unrhyw lys, tribiwnlys, corff neu unigolyn	£44	£47	£3
<b>8A.1</b>	Cyflwyno gorchymyn gan feili i ddod i'r Llys Sirol ar gyfer holi	£110	£118	£8
<b>10.1</b>	Biliau Gwerthiant	£28	£30	£2
<b>10.2</b>	Tystysgrif swyddogol canlyniad chwiliad (am bob enw)	£50	£54	£4
<b>10.3</b>	Chwilio cofnodion llys yn bersonol (fesul 15 munud)	£11	£12	£1
<b>12.1</b>	Affidafid	£12	£13	£1
<b>13.1a</b>	Cais – caniatâd i apelio/estyniad amser	£528	£569	£41
<b>13.1b</b>	Does dim angen caniatâd i apelio neu mae wedi cael ei roi	£1,199	£1,291	£92
<b>13.1c</b>	Apelydd/atebydd yn ffeilio holiadur apelio	£1,199	£1,291	£92
<b>13.2</b>	Ffeilio hysbysiad atebydd	£528	£569	£41

### Cynnig ar gyfer diwygio

Cynyddu rhai ffioedd llys a chynyddu trothwyon incwm Help i Dalu Ffioedd yn ôl chwyddiant

<b>13.3</b>	Ffeilio hysbysiad o gais	£528	£569	£41
-------------	--------------------------	------	------	-----

# Atodiad B: Newidiadau arfaethedig i HwF

Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at y trothwyon incwm presennol ac arfaethedig ar gyfer HwF (sef yr uchafswm er mwyn bod yn gymwys, gall yr incwm fod yn is na'r swm hwn) ar gyfer y rheini nad ydynt yn hawlio budd-daliadau ar hyn o bryd.

<b>Prawf Incwm</b>	<b>Trothwy Cyfredol</b>	<b>Trothwy Arfaethedig</b>
<b>Incwm misol person sengl cyn treth</b>	£1,085	£1,165
<b>Incwm misol cwpl cyn treth</b>	£1,245	£1,335
<b>Incwm misol ychwanegol cyn treth ar gyfer pob plentyn dibynnol</b>	£245	£265





© Hawlfraint y Goron 2019

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk).